*CYNGOR BWRDEISTREF SIROL*
# *RHONDDA CYNON TAF*
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**GWŶS I GYFARFOD PWYLLGOR**

C Hanagan
Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach, CF40 2XX

Dolen gyswllt: Julia Nicholls - Gwasanaethau Democrataidd (01443 424098)

**DYMA WŶS I CHI** i gyfarfod rhithwir o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal ar **DYDD MERCHER, 15FED RHAGFYR, 2021** am **5.00 PM.**

| AMSER | EITEM | TUDALEN(NAU) |
|---|---|---|
| | **ITEM 8.1. DIWYGIO'R RHYBUDD O GYNNIG** | 3 - 4 |

**<u>Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu</u>**

**At: Pob Aelod o'r Cyngor**

tudalen wag

**CYFARFOD Y CYNGOR 15 RHAGFYR 2021**
**DIWYGIO'R RHYBUDD O GYNNIG FEL SYDD WEDI'I NODI YN EITEM (8) O AGENDA'R CYNGOR**

Yn unol â Rheol Weithdrefn 10.4.1 o Ran 4 o Gyfansoddiad y Cyngor, derbyniwyd y diwygiadau canlynol yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P. Jarman, A. Cox, J. Williams, D. Grehan, G. Davies, J. Davies, J. Cullwick, K. Morgan, L. Jones, E. Stephens, S. Rees-Owen, M. Weaver, E. Webster, A. Chapman, S. Evans, H. Fychan ac E. Griffiths.

Dylai banciau fod yn wasanaeth hanfodol yn ein cymunedau, gan gynnig mynediad cyfleus i drigolion i'w harian a'u galluogi nhw i ofalu am unrhyw faterion ariannol personol. Yn aml, maen nhw wedi'u lleoli yng nghanol ein trefi, yn agos at gyfleusterau a siopau hanfodol eraill.

Yr hysbysiad sy'n nodi y bydd cwmni Barclays yn cau ei gangen yn Sgwâr Fictoria yn Aberdâr ym mis Mawrth 2022 yw'r enghraifft ddiweddaraf o wasanaethau ariannol yn cael eu tynnu'n ôl o gymunedau Rhondda Cynon Taf. Os bydd y cynlluniau'n cael eu cymeradwyo, byddan nhw'n cael effaith niweidiol ar y cyfleoedd sydd gan ein trigolion i ddefnyddio'r cyfleusterau yma, yn ogystal â chael effaith ar fywiogrwydd canol ein trefi. Mae'r Cyngor wedi gweithio'n galed i sicrhau bod ein canol trefi yn llefydd deniadol a chroesawgar ar gyfer y cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu, yn enwedig ar ôl yr anawsterau eithriadol y mae masnachwyr lleol wedi'u hwynebu yn ystod y 18 mis diwethaf.

Mae Aberdâr eisoes wedi gweld NatWest {Ychwanegu: The Co-operative Bank} a HSBC yn tynnu eu gwasanaethau o'r dref, tra bod Trefforest, Treorci, Porth ac Aberpennar ymhlith yr ardaloedd eraill sydd hefyd wedi gweld banciau'n cau yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Ni fydd y sicrwydd sy'n cael ei ddarparu gan Barclays ynghylch y gwasanaethau agosaf ym Merthyr Tudful a Phontypridd yn fawr o gysur i nifer o bobl, bydd y daith i'r naill gangen yn cymryd rhwng 40-50 munud.

Mae'r Cyngor hwn yn dymuno cofnodi ei wrthwynebiad i'r cynlluniau i gau Banc Barclays yn Aberdâr ac yn penderfynu:

- Gofyn i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Bennaeth Cysylltiadau Corfforaethol Wales and West a Phrif Weithredwr Banc Barclays i alw am ailystyried y cynlluniau.
- {Ychwanegu: Gofyn i adroddiad ar y cyd gan y Prif Weithredwr, y Swyddog 151 a'r Swyddog Monitro, sy'n trafod pob mater i'w ystyried o ran newid ein banc o fanc Barclays, gael ei ddwyn gerbron y Cyngor}
- Gofyn bod y Cyngor yn ceisio sicrhau bod y buddion cymdeithasol sy'n gysylltiedig â chynnal cyfleusterau bancio lleol yn ein cymunedau yn cael eu cynnwys yn rhan o'n perthynas â'r sector bancio yn y dyfodol.
- {Ychwanegu: Nodi cyhoeddiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu a lansio Banc Cymunedol Cymru, sydd â'i bencadlys yng Nghymru. Mae'r Cyngor yma'n galw ar Lywodraeth Cymru i gyflymu'r gwaith o sefydlu a chyflwyno Banc Cambria, sydd â'r bwriad o agor canghennau ar brif strydoedd trefi ledled Cymru.}

## Bydd y cynnig wedi'i ddiwygio yn darllen:

Dylai banciau fod yn wasanaeth hanfodol yn ein cymunedau, gan gynnig mynediad cyfleus i drigolion i'w harian a'u galluogi nhw i ofalu am unrhyw faterion ariannol personol.  Yn aml, maen nhw wedi'u lleoli yng nghanol ein trefi, yn agos at gyfleusterau a siopau hanfodol eraill.

Yr hysbysiad sy'n nodi y bydd cwmni Barclays yn cau ei gangen yn Sgwâr Fictoria yn Aberdâr ym mis Mawrth 2022 yw'r enghraifft ddiweddaraf o wasanaethau ariannol yn cael eu tynnu'n ôl o gymunedau Rhondda Cynon Taf. Os bydd y cynlluniau'n cael eu cymeradwyo, byddan nhw'n cael effaith niweidiol ar y cyfleoedd sydd gan ein trigolion i ddefnyddio'r cyfleusterau yma, yn ogystal â chael effaith ar fywiogrwydd canol ein trefi. Mae'r Cyngor wedi gweithio'n galed i sicrhau bod ein canol trefi yn llefydd deniadol a chroesawgar ar gyfer y cymunedau y maen nhw'n eu gwasanaethu, yn enwedig ar ôl yr anawsterau eithriadol y mae masnachwyr lleol wedi'u hwynebu yn ystod y 18 mis diwethaf.

Mae Aberdâr eisoes wedi gweld NatWest, The Co-operative Bank, a HSBC yn tynnu eu gwasanaethau o'r dref, tra bod Trefforest, Treorci, Porth ac Aberpennar ymhlith yr ardaloedd eraill sydd hefyd wedi gweld banciau'n cau yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Ni fydd y sicrwydd sy'n cael ei ddarparu gan Barclays ynghylch y gwasanaethau agosaf ym Merthyr Tudful a Phontypridd yn fawr o gysur i nifer o bobl, bydd y daith i'r naill gangen yn cymryd rhwng 40-50 munud.

Mae'r Cyngor hwn yn dymuno cofnodi ei wrthwynebiad i'r cynlluniau i gau Banc Barclays yn Aberdâr ac yn penderfynu:

- Gofyn i Arweinydd y Cyngor ysgrifennu at Bennaeth Cysylltiadau Corfforaethol Wales and West a Phrif Weithredwr Banc Barclays i alw am ailystyried y cynlluniau.
- Gofyn i adroddiad ar y cyd gan y Prif Weithredwr, y Swyddog 151 a'r Swyddog Monitro, sy'n trafod pob mater i'w ystyried o ran newid ein banc o fanc Barclays, gael ei ddwyn gerbron y Cyngor
- Gofyn bod y  Cyngor yn ceisio sicrhau bod y buddion cymdeithasol sy'n gysylltiedig â chynnal cyfleusterau bancio lleol yn ein cymunedau yn cael eu cynnwys yn rhan o'n perthynas â'r sector bancio yn y dyfodol.
- Nodi cyhoeddiad Llywodraeth Cymru i ddatblygu a lansio Banc Cymunedol Cymru, sydd â'i bencadlys yng Nghymru. Mae'r Cyngor yma'n galw ar Lywodraeth Cymru i gyflymu'r gwaith o sefydlu a chyflwyno Banc Cambria, sydd â'r bwriad o agor canghennau ar brif strydoedd trefi ledled Cymru.